

## **CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS**

CLERC : John MacLennan, 19, Lôn Garnedd, Abergele. LL22 7EW Ffôn : 01745 826901 Sym : 07903328655  
e-bost : [johnmaclellan9@icloud.com](mailto:johnmaclellan9@icloud.com)

MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 7.30y.h. DDYDD MERCHER, MAI 8fed, 2019, YN Y GANOLFAN GYMUNEDOL, LLANELIAN YN RHOS.

1. CROESO - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd Griffiths, a'r Cynghorwyr Bryn Jones; D.Gwyn Jones; Tudur W.Jones; Gwyndaf O.Roberts; Goronwy R.Williams a Hefin Williams.
3. YMDDIHEURIADAU - y Cynghorwyr Eifion Evans; Fiona Haf Jones; John D.Roberts a'r Cynghorydd Sir, Ifor G.Lloyd.
4. DATGANIADAU O DDIDDORDEB - Atgoffir aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. NI DDATGELWYD YR UN.
5. MUNUDAU - PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Ebrill 1af, 2019, yn Neuadd y Pentref, Betws yn Rhos, a hefyd funudau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar Fawrth 4ydd, 2019, gan nad oedd cworwm yng nghyfarfod mis Ebrill.
6. MATERION YN CODI
  - 1.18/14(v) Tyllau yn y ffordd rhwng croesffyrdd Garnedd a Nentydd. Mae GF32176 yn cyfeirio. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ofyn pam y mae safon y ffyrdd yn sir Conwy'n eilradd i'r rhai yn y siroedd cyfagos.
  - 2.18/14(i) Y bwth teleffon yn Nolwen. PENDERFYNWYD gohirio'r mater hwn.
  - 11.18/14(ii) Cyflwr y llwybr troed o Lanelian i Fryn Elian, a adwaenir fel Ffordd Figin. Rhif gwaith. 00046880. Roedd hwn yn dal yn fater heb ei setlo.
  - 3.19/18(i) Tyllau ffordd rhwng Betws a Nant yr Efail. Mae rhif gwaith 00046881 yn cyfeirio. Mae'r mater hwn yn dal heb ei setlo.
  - 3.19/18(ii) Cwyn ynglŷn â damweiniau niferus ar y troadau ger Bryn Person. Mae rhif 46292 yn cyfeirio. Dim datrys y mater hwn gan y Cyngor Sir.
  - 3.19/18(iii) Coed yn tyfu dros y ffordd ar Ffordd Galch. Nid yw'r mater hwn fyth wedi ei setlo.

3.19/18(iv) Tyllau ffordd a phroblemau draeinad ar y ffordd rhwng Tŷ'n Wal a Phont Dawn. Barn yr aelodau yw bod cerbydau HGV'n achosi difrod sylweddol i'r ffordd, yn arbennig felly ger Fron Ucha. PENDERFYNWYD gofyn i'r Cynghorydd Sir ofyn a all yr adran ERF setlo'r mater hwn.

7. GOHEBIAETH GYFFEDINOL -

5.19/7(i) e-bost gan Gymdeithas Gymunedol Llanelian yn diolch i'r Cyngor am eu helpu nhw yn eu gwaith o gael ffensio'r lle chwarae. NODWYD hyn gyda diolch.

5.19/7(ii) Cyhoeddiad gan Cradur.com yn nodi eu polisi Gwarchod Data ar gyfer y wefan. NODWYD hyn.

5.19/7(iii) Papur Pleidleisio gan Un Llais Cymru i ethol cynrychiolydd ar y Bwrdd Iechyd. PENDERFYNWYD pleidleisio i Joan Barker.

5.19/7(iv) E-bost gan Cader Architecture Company yn gofyn i'r Cyngor awgrymu enw ar gyfer y bythynnod newydd ger Bay Cottage, Betws yn Rhos. PENDERFYNWYD gofyn i'r cwmni enwi'r bythynnod yn Tai Glasfryn, gan ei fod yn enw ar hen dŷ ar y safle hwn a oedd wedi ei ail-enwi'n Airleagh.

8. CYLLID - PENDERFYNWYD nodi ac arwyddo adroddiadau'r Banc ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Fawrth 20fed, 2019.

Cyfrif cymunedol .....£6176.00

Cyfrif busnes .....£5536.77

PENDERFYNWYD nodi ac arwyddo adroddiadau'r Banc ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Ebrill 20fed, 2019.

Cyfrif cymunedol .....£5458.58

Cyfrif busnes .....£5536.77

5.19/8(i) Mantolen fisol 21. 2.19 hyd at 20.4.19 - CYTUNWYD ARNI GAN BAWB.

9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - PENDERFYNWYD NODI'r holl daliadau isod a dderbyniwyd:-

I NODI'r taliadau isod:-

4.19/9(i) Cyfraniad tuag at gronfa'r diffibriliwr.....£ 36.00

4.19/9(ii) Llog y banc .....£ 2.55

**10. TALIADAU ALLAN - PENDERFYNWYD NODI'r taliadau isod a wnaed:-**

- i. 4.19/10(i) Cyflog y Clerc .....(DU) .....£ 287.23
- ii. 4.19/10(ii) HMRC...(DU) .....£ 71.81
- iii. 4.19/10(iii) Cyfieithu..(Hanner y gost) .....£ 18.50
- iv. 4.19/10(iv) Cyfieithu'r Polisi Grantiau .....£ 26.00
- v. 4.19/10(v) Goleuadau Nadolig CBSC .....£ 163.88
- vi. 4.19/10(vi) Gwefan Cradur.com .....£ 150.00

**TALIADAU ALLAN - PENDERFYNWYD talu'r holl eitemau a restrir isod:-**

- i. 5.19/10(i) Cyflog y Clerc .....(DU).....£ 287.23
- ii. 5.19/10(ii) HMRC....(DU) .....£ 71.81
- iii. 5.19/10(iii) Cyfieithu .....(Hanner y gost) .....£ 14.50
- iv. 5.19/10(iv) Arwyddion Humphrey.....£ 132.00
- v. 5.19/10(v) Yswiriant Zurich... .....£ 354.14

**11. CEISIADAU AM GRANT - Dim.**

**12. MATERION SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

4.16/12(i) Adroddiadau ynglŷn â materion Archwiliad Ward.

5.19/12(i) Cyhoeddiad am orffen gwaith ar groesffordd Garnedd. NODWYD hyn gyda diolch.

**13. MATERION CYNULLIAD CYMRU -**

5.19/13(i) Cyhoeddiad Etholiadau Senedd Ewrob. Dywedodd y Clerc fod y cyhoeddiadau wedi cael eu harddangos.

**14. MATERION CYFFREDIOL O FEWN Y GYMUNED**

**15. UNRHYW FATER ARALL**

5.19/15(i) Cynllun derbyn, neu beidio â derbyn, lwfans Cyngorydd y Panel Ad-daliadau annibynnol. Rhoddwyd adroddiad derbyn, neu beidio â derbyn, i'r aelodau i'w arwyddo.

5.19/15(ii) I gytuno ar bolisi cyfryngau i'r Cyngor, ac i gymeradwyo ac arwyddo. CYMERADWYWYD.

5.19/15(iii) I gytuno ar bolisi cyfrwng cymdeithasol i'r Cyngor, ac i gymeradwyo ac arwyddo. CYMERADWYWYD.

5.19/10(v) Cyhoeddiad adnewyddu polisi yswiriant y Cyngor gan Gwmni Yswiriant Zurich. CYTUNWYD arno ac awdurdodwyd y taliad.

## 16. CYNLLUNIO - ER NODI

4.19/16(i) 0/45158 and 0/45161 Cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl ynghylch caniatâd cynllunio amlinellol 0/42343 a 0/42351 (Datblygu tir gyferbyn â Bryn Rhodyn, Hen Golwyn, ar gyfer tai annedd (caniatâd cynllunio amlinellol) (Cam 2) ar dir ar Ffordd Dolwen, Hen Golwyn. Gan Mr Stuart Andrew a Mr a Mrs Henry a Davina Featherstonehaugh.

4.19/16(ii) 0/46072 Estyniad deulawr ac estyniad cefn unllawr arfaethedig yn 1, Bodelian, Ffordd Ysgubor Newydd, Llanellian. Mrs Hayley Roberts.

## CEISIADAU NEWYDD

5.19/16(i) 0/46096 Estyniad i annedd yn Glyn Cottage, Betws yn Rhos. Mr David Jasper. CYTUNODD aelodau i WRTHWYNEBU'r cais hwn oherwydd maint a graddfa'r datblygiad, a hefyd oherwydd ei effaith distrywiol ar brisiau tai yn yr ardal, a hefyd gan fod ceisiadau cyffelyb yn y gorffennol wedi eu gwrthod.

5.19/16(ii) 0/46142 Codi sied storio gysylltiedig â'r maes carafannau. Codi toiled/golchydd dwylo/ cymorth cyntaf newydd ar gyfer staff. Adnewyddu sied beiriannau bresennol. (Cais adolygol) ym Mharc Carafannau Pen-y-Bryn, Ffordd Pen-y-Bryn, Betws yn Rhos. Mr John Prytherch. DIM GWRTHWYNEBIAD. .

## 17. MATERION ARCHWILIAD. - Dim.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod fe orffennodd y cyfarfod am 8.55y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....